

6. Y Nadolig Cyntaf

- Llefarydd: Salm 117
- Darlleniad: Eseia 9:2, 6, 7
- Darlleniad: ‘Roedd sêr yn ddisglair uwch y rhos’, *Clychau'r Nadolig*.
- Gweddi: Ein Tad, diolch i ti am ddod â ni at ein gilydd i ddathlu'r wyl arbennig hon. Diolch am ddangos dy gariad mawr tuag aton ni ar y Nadolig cyntaf hwnnw a diolch dy fod ti'n dal yn ein caru ni heddiw. Amen.
- Siaradwr 1: Noswaith dda ffrindiau. Wel dyma ni o fewn ----- diwrnod i'r Nadolig unwaith eto. Tydi hi'n amser prysur fel arfer, pawb yn rhuthro o un lle i'r llall? Mae yna gymaint i'w wneud a llawer o waith paratoi'r holl anrhegion yma. Sôn am hwyl! Ac rydw i wrth fy modd yn mynd o gwmpas y siopau i weld yr holl bethau deniadol sydd ar gael ar gyfer y Nadolig. Yn wir, petawn i'n medru fforddio, fuaswn i'n prynu llawer mwy o'r pethau hyn.
- Ateb 1: Esgusoda fi, fy ffrind – rydw i newydd fod yn gwrando arnat ti'n sôn am y pethau sy'n mynd â dy fryd di yr adeg yma o'r flwyddyn. Rwy'n hoffi eu gweld nhw hefyd, ac yn hoffi dewis ambell i anrheg i'm ffrindiau. Ond wyddost ti, cofio am rywun arbennig iawn ydan ni adeg y Nadolig, nid am y pethau hyn yn unig, er mor dda ydyn nhw.
- Cofia y gelli di a finnau, a llawer o bobl eraill fod yn berchen ar beth wmbreth o drysorau, ond heb y trysor gorau. Cofia eiriau'r emyn:
'Gwerthfawr drysor,
Yn y preseb, Iesu a gaed.'
- Siaradwr 2: Helô bawb. Mae'n siŵr eich bod wrthi yn ystod y dyddiau diwethaf 'ma'n cael gafael ar yr hen drimins Nadolig 'na o'r atig. Ie, a beth am y goeden? Tydi hi'n hardd, gyda'i goleuadau lliwgar a'r seren yn ben ar y cyfan? A meddyliwch am yr holl addurniadau llachar yna yn y siopau? Yn wir, maen nhw'n ddigon o ryfeddod, ac mae eu gweld nhw'n rhoi cymaint o bleser i mi. Diolch yn wir am oleuadau'r tymor hwn.
- Ateb 2: Rydw i wedi bod yn gwrando arnat ti'n sôn am y goleuadau sydd o'n cwmpas ni'r dyddiau hyn. Rydw i'n eu mwynhau nhw hefyd. Ond cofia mai goleuadau dros dro ydyn nhw i gyd, ie, trimins llachar ond yn rhoi fawr ddim goleuni o'u cymharu â'r prif oleuadau. Ac er mor hardd ydyn nhw, cofia mai prif oleuni'r byd ddylai fod bwysicaf adeg y Nadolig. Ie, y goleuni sy'n 'goleuo pob dyn yn y byd'. Mae'n gysur mawr gwybod na all holl dywyllwch y byd drechu'r goleuni hwn. Cofia hefyd, bod y goleuni ei hun wedi dweud ein bod ninnau, fel disgyblion iddo ef, yn oleuni'r byd – dyna i ti fraint, a dyna i ti gyfrifoldeb.
- Siaradwr 3: Dyma'r Nadolig wedi cyrraedd ffrindiau, a bydda i wrth fy modd yn gwrando ar rai o'r CDs newydd sydd ar y farchnad y dyddiau hyn. Roeddwn i'n gwrando arnoch chi'n sôn am eich teganau, a'ch trimins, ond i mi, fy hoff CD i yw fy

nefoedd i. Yn wir, mae'n rhaid i mi gyfaddef bod y disgo yma'n dechrau mynd i'm gwaed i'n ddiweddar – mae wedi cael gafael yn fy nhraed i ers tro. Tydi'r Nadolig ddim yn Nadolig heb ddigon o fiwsig; meddylwch o ddifri am yr holl rialtwch sy'n rhan o'r cyfan.

Ateb 3: Ga i ddweud gair bach ar ôl i mi dy glywed di'n sôn am dy hoffter o fiwsig a recordiau? Mae gen i fy hoff CDs cofia, ac fe allwn i wrando am oriau ar ambell un. Ond cofia, mae yna wahaniaeth rhwng yr hyn sy'n dod â phleser personol i ti a minnau, neu rywun arall, a'r hyn sy'n dod â gwir lawenydd i bawb. Cofia mai testun y gân ar feysydd Bethlehem oedd 'bod Ceidwad dyn wedi'i eni' i'r byd. Dyna destun pob carol ers hynny. Ac mae pob carol yn brawf o bobl yn profi gwir lawenydd. Cofia fod yr Iesu a anwyd ym Methlehem wedi dod er mwyn i'n llawenydd ni fod yn gyflawn.

Siaradwr 4: Noswaith dda ffrindiau. Rydw innau wedi bod yn gwranddo arnoch chi'n sôn am eich anrhegion, a'ch trimins, a'ch miwsig modern. Beth am fwydydd y Nadolig? Rwy'n gwybod yn iawn nad ydy gorfwyta'n dda i neb ond mae'n rhaid i ni gael bwyd. Ydy'r gacen yn barod? Rydw i fel chithau'n mwynhau pryd da o fwyd. Mae'n debyg mai gorlwytho'r cypyrddau fyddwn ni i gyd, ond dyna fo, mae yna rywbeth at ddant pawb yn nhymor y Nadolig.

Ateb 4: Esgusoda fi fy ffrind. Bùm i'n gwranddo arnat ti fel y lleill, gyda diddordeb mawr. Rwy'ti'n edrych fel un sy'n mwynhau dy fwyd, ac mae'n siŵr y byddi di fel finnau'n gwledda digon dros y Nadolig. Yn wir, dylen ni i gyd fod yn ddiolchgar iawn fod yna ddigon o fwyd ar ein cyfer ni a ninnau'n byw mewn byd â miloedd yn marw ynddo bob dydd. Tydw i ddim yn gwarafun am funud i ti gael yr holl ddanteithion yma, ond cofia hefyd fod y 'bywyd yn fwy na'r bwyd' fel y mae'r 'corff yn fwy na'r dillad'. Wrth i ni gofio Iesu Grist yn ystod yr ŵyl eto eleni, byddai'n dda i ni gofio mai prif bwrpas ei ddyfodiad i'r byd oedd dod â bywyd i'r byd, a hwnnw'n 'fywyd yn ei holl gyflawnder'.

Siaradwr 4: 'Bywyd yn ei holl gyflawnder' ddywedaist ti? Be wyt ti'n ei feddwl?

Ateb 4: Awn i eistedd ar yr ochr ac fe gawn ni glywed yr hanes.

Mair: Teithwyr wedi blino ydyn,
Gawn ni lety gyda thi?
Cei, yn dâl am dy gymwynas,
Le yn ein gweddïau ni.

Gŵr y llety: Na, nid oes dim cartref yma
Am eich gweddi, heb eich aur.

Joseff: Bydd drugarog, paid â gwrthod
Llety clyd i mi a Mair.

Gŵr y llety: Dyna lety'r anifeiliaid –
Digon da i rai mor dlawd:
Ni chewch gan y rhai goludog
Heno yn fy nhŷ ond gwawd.

Joseff: Llonydd yw yr ychen yno,
Gyda'u llygaid mwynaidd, Mair:
Gwell eu cwmni hwy f'anwylyd,
Na chael gwawd gan wŷr yr aur.

Adroddiad: 'Y Geni', I. D. Hooson, *Y Gwin a Cherddi Eraill*.

Llefarydd: Luc 2:8-14

Llefarydd: Mathew 2:1-9

Adroddiad: 'Y Doethion', I. D. Hooson, *Y Gwin a Cherddi Eraill*.

Llefarydd: 'Draw yn nhawelwch Bethlem dref', *Clychau'r Nadolig*.

Ateb 4: Dyna ni wedi cael cipolwg ar hanes y Nadolig cyntaf.

Dechrau stori'r newyddion da am Iesu Grist, gwyrth yr ymgnawdoliad, Duw yn anfon ei fab i'r byd fel un ohonon ni. Dangosodd Iesu i ni, yn ystod ei fywyd ar y ddaear, ffordd o fyw sy'n bodloni Duw. Cofiwn am Iesu yn dangos sut oedd bod yn ffrind i bawb, hyd yn oed y rheini oedd yn wrthodedig gan y rhan fwyaf yn y gymdeithas, pobl fel Sacheus y casglwr trethi a'r wraig o Samaria. Roedd consŷrn Iesu am bawb yn amlwg. Datguddiodd Iesu trwy ei fywyd, ewyllys Duw a chariad rhyfeddol Duw tuag atom. Aeth i'r groes i ddioddef cosb ein beiau yn ein lle a dod â maddeuant Duw i ni. Daeth i'n byd er mwyn i ni gael 'bywyd yn ei holl gyflawnder'. Cawn y bywyd hwn drwy ddilyn Iesu – dilyn ei esiampl, caru'n gilydd a chredu mai Iesu yw Mab Duw a thrwy hynny gael y wefr i brofi maddeuant Duw, a Duw gyda ni trwy ei Ysbryd bob amser.

Siaradwr 4: Diolch o galon. Nawr rwy'n deall ystyr y Nadolig ac yn llawenhau yn newyddion da Gŵyl y Geni.

Gweddi: Diolch am ein hatgoffa o wyrth y Nadolig cyntaf hwnnw ac am ddangos i ni cymaint yr oeddet ti ac yr wyt ti o Dduw yn ein caru ni. Amen.

DIWEDD